



**Cyfoeth
Naturiol**
Cymru
**Natural
Resources**
Wales

Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol

Canllawiau i Ymgeiswyr

Hanes y Fersiwn:

Fersiwn y Ddogfen	Dyddiad Cyhoeddi	Crynodeb o Newidiadau
1.0	Mai-2017	Creu'r ddogfen
Dyddiad Adolygu: Mai 2018		

Cyhoeddwyd gan:

Cyfoeth Naturiol Cymru

Tŷ Cambria

29 Heol Casnewydd

Caerdydd

CF24 0TP

0300 065 3000 (Llun-Gwener 8am-6pm)

enquiries@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

© Cyfoeth Naturiol Cymru

Cedwir pob hawl. Gellir atgynhychu'r ddogfen hon yn unig gyda chaniatâd ysgrifenedig

Cyfoeth Naturiol Cymru

Am beth mae'r ddogfen hon yn sôn?

Mae'r canllawiau hyn yn amlinellu rôl CNC fel ymgynghorai arbenigol gyda golwg ar geisiadau ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol

Ar gyfer pwy mae'r ddogfen hon?

Mae'r canllawiau hyn ar gyfer ymgeiswyr a datblygwyr sy'n paratoi cais ar gyfer Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol.

Cyswllt ar gyfer ymholiadau ac adborth

Tîm Cynllunio ac Ynni, cyfeiriad e-bost: EPP.Planning@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk.

1 Cyflwyniad

1.1.1 Anelir y canllaw hwn at ymgeiswyr a datblygwyr sydd am gyflwyno cais am Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (DAC). Mae'n nodi ein swyddogaeth fel ymgynghorai arbenigol mewn perthynas â cheisiadau am DAC a dylid cyfeirio ato wrth baratoi cais am DAC. Nid yw'r canllaw hwn yn cymryd lle darpariaethau deddfwriaethol ac nid yw'n cynnwys cyngor cyfreithiol. Dylech gyfeirio at y ddeddfwriaeth berthnasol a cheisio cyngor cyfreithiol annibynnol os oes angen.

1.1.2 Rydym hefyd yn amlinellu manylion y gwasanaethau a gynigir gennym yn ystod y broses DAC, ac yn disgrifio:-

- pryd yw'r amser gorau i gysylltu â ni;
- y broses ar gyfer gofyn am y gwasanaeth hwn; a
- ffioedd ar gyfer cyngor yn ôl disgrisiwn.

1.1.3 Yn ogystal â'n swyddogaeth fel ymgynghorai arbenigol, rydym hefyd yn pennu cydsyniadau a all fod yn berthnasol i'r DAC.

1.1.4 Dylid darllen y canllaw hwn ochr yn ochr â chanllaw'r Arolygiaeth Gynllunio ar:-


- [DAC](#), sy'n esbonio'r broses ymgeisio am DAC a'r derminoleg a ddefnyddir, ac sy'n cynnwys canllaw ar Aseidiadau o Effaith Amgylcheddol ac Aseidiadau Rheoliadau Cynefinoedd;
- [Swyddogaeth cyrff cyhoeddus yn y broses DAC](#).

1.1.5 Caiff y canllaw hwn ei adolygu yn ôl yr angen i sicrhau ei fod yn dal yn berthnasol a chyfredol.

1.2 Proseses Ymgeisio DAC

1.2.1 Mae Siart Lif 1 yn crynhoi prif gamau'r broses o benderfynu ar gais DAC:-

Siart Lif 1 – Proses DAC



2 Swyddogaeth Cyfoeth Naturiol Cymru fel ymgynghorai arbenigol

2.1.1 Dan Orchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016 (Gorchymyn 2016), mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn 'ymgynghorai arbenigol' yn y broses ymgeisio ar gyfer DAC lle mae'r datblygiad mewn categori a amlinellir yn y tabl yn Atodlen 5 o Orchymyn 2016 a lle caiff Cyfoeth Naturiol Cymru ei enwi fel ymgynghorai arbenigol ar gyfer categori penodol.

2.2 Cyn ymgeisio – Cyngor Statudol

2.2.1 Mae'n ofynnol eich bod yn ymgynghori â ni cyn cyflwyno eich cais i Weiniogion Cymru lle mae'r cynnig yn bodloni un neu fwy o'r meini prawf a ragnodir yn Atodlen 5 Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016 (Gorchymyn 2016). Sef:-

- Datblygiad sy'n ymwneud â neu sy'n cynnwys gweithrediadau mwyngloddio;
- Datblygiad sy'n ymwneud â chyflawni gwaith neu weithrediadau yng ngwely neu ar lannau afon neu ffrwd;
- Datblygiad at y diben o buro neu storio olewau mwynau a'u deilliadau;
- Datblygiad sy'n ymwneud â defnyddio'r tir ar gyfer dyddodi sbwriel neu wastraff;
- Datblygiad mewn perthynas â chadw, trin neu waredu carthion, gwastraff masnachol, slyri neu slwtsh (ac eithrio gosod carthffosydd, adeiladu tai pwmpio mewn llinell o garthffosydd, ac adeiladu tanciau carthion neu garthbyllau sy'n gwasanaethu tai annedd sengl neu garafanau sengl neu adeiladau sengl lle na fydd mwy na deg o bobl fel arfer yn preswyllo, gweithio neu ymgynnull, a gwaith sy'n ategol i hynny);
- Datblygiad sy'n effeithio ar ddefnyddio tir fel mynwent;

- Datblygiad sydd (i) mewn neu'n debygol o effeithio ar Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig; neu (ii) mewn ardal yr hysbyswyd Gweinidogion Cymru yn ei chylch gan Gorff Adnoddau Naturiol Cymru ac sydd o fewn dau gilometr i Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig y rhoddwyd hysbysiad ohono, neu sy'n cael effaith fel pe bai hysbysiad ohono wedi ei roi i Weinidogion Cymru gan Gorff Adnoddau Naturiol Cymru, yn unol ag Adran 28 o Ddeddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981 (Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig);
- Datblygiad sydd o fewn 250 metr i dir— (i) a ddefnyddir, neu sydd wedi ei ddefnyddio ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod o 30 mlynedd cyn y cais perthnasol, ar gyfer dyddodi sbwriel neu wastraff; a (ii) yr hysbyswyd Gweinidogion Cymru yn ei gylch gan Gorff Adnoddau Naturiol Cymru at ddibenion y ddarpariaeth hon.

2.2.2 Ar gyfer ymgynghoriad cyn gwneud cais statudol dan Orchymyn 2016, mae'n ofynnol eich bod yn cydymffurfio â'r gofynion cyhoeddi dan Erthygl 8 ac yn cyflwyno hysbysiad i ni dan Erthygl 9 fel y rhagnodir yn Atodlen 2 o Orchymyn 2016 neu mewn ffurf sydd, o ran sylwedd, yn cael yr un effaith. Yn ogystal, byddem yn disgwyl i chi ddarparu'r holl ddogfennau sy'n berthnasol i'r cynllun ar ein cyfer, gan gynnwys (ond efallai nad yw'n gyfyngedig i):-

- Datganiad Amgylcheddol yn cynnwys methodolegau a mesurau lliniaru arfaethedig i fynd i'r afael ag effeithiau amgylcheddol arwyddocaol;
- Atodlen o'r cydsyniadau eilaidd y gwnaed cais amdanynt fel rhan o'r cais DAC;
- Ffurflenni cais a dogfennau sy'n gysylltiedig â chydsyniadau eilaidd;
- Amserlen arfaethedig ac atodlen o'r cydsyniadau cysylltiedig sy'n berthnasol i Cyfoeth Naturiol Cymru y gwneir cais amdanynt ynghyd â'r holl ddogfennau sydd ar gael;
- Yr holl blaniau a darluniau sydd eu hangen i adnabod a disgrifio'r datblygiad arfaethedig;
- Adroddiad ar Effeithiau Arwyddocaol Tebygol dan Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'i diwygiwyd).

2.2.3 Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru'n darparu ymateb o sylwedd o fewn 42 diwrnod yn dechrau ar y diwrnod y rhoddir yr hysbysiad y cyfeirir ato yn Erthygl 9. Byddwn yn darparu ymateb o sylwedd unigol i gais DAC penodol. Lle mae angen cyngor pellach cyn ymgeisio, gall Cyfoeth Naturiol Cymru gytuno i ddarparu hwn yn ôl ei ddisgresiwn yn unol â'i delerau ac amodau safonol dan ei gynllun codi tâl.

2.2.4 Bydd ein hymateb o sylwedd i ymgynghoriad cyn ymgeisio statudol fel ymgynghorai arbenigol yn cynnwys un o'r pedwar ymateb canlynol a gynhwysir yn Nhabl 1.

Tabl 1: Categoriâu ymateb o sylwedd yn ystod y cam cyn ymgeisio	
Categori ymateb o sylwedd	Pryd i'w ddefnyddio
Mae hyn yn nodi nad oes gan yr ymgynghorai arbenigol unrhyw sylw i'w wneud.	Byddem yn defnyddio'r categori ymateb hwn lle nad yw DAC yn bodloni unrhyw un o'r meini prawf yn ein rhestr wirio ar gyfer ymgysylltu.

<p>Mae hyn yn nodi nad oes gan yr ymgynghorai arbenigol unrhyw wrthwynebiad i'r datblygiad arfaethedig, ac yn cyfeirio'r ymgeisydd at y cyngor sefydlog cyfredol gan yr ymgynghorai arbenigol ynglŷn â'r ymgynghoriad.</p>	<p>Byddai'r categori ymateb hwn yn cael ei ddefnyddio lle rydym yn ystyried bod unrhyw effeithiau ar fudd amgylcheddol sydd ar ein rhestr wirio ar gyfer ymgysylltu yn cael eu hosgoi neu eu lliniaru mewn ffordd briodol heb i ni wneud cais am unrhyw amodau cynllunio. Byddwn yn cyfeirio at gyngor sefydlog cyfredol Cyfoeth Naturiol Cymru ynglŷn â'r ymgynghoriad.</p>
<p>Mae hyn yn hysbysu'r ymgeisydd am unrhyw bryderon a nodwyd mewn perthynas â'r datblygiad arfaethedig, a sut y gall yr ymgeisydd roi sylw i'r pryderon hynny.</p>	<p>Byddem yn defnyddio'r categori hwn o ymateb lle rydym yn ystyried bod y cynllun yn dderbyniol mewn egwyddor a:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Lle mae angen addasiadau i'r cynllun arfaethedig er mwyn goresgyn effeithiau amgylcheddol annerbyniol; a/neu • Mae'r wybodaeth a gyflwynwyd yn ddiffygiol a lle na allwn ddiystyru effeithiau amgylcheddol arwyddocaol posibl; a/neu • Lle y gellid goresgyn ein pryderon trwy atodi amodau i unrhyw ganiatâd cynllunio a roddir gan Weinidogion Cymru. <p>Pan fyddwn yn defnyddio'r categori ymateb hwn, gallwn hefyd bwysleisio, lle na roddir sylw i'n pryderon a lle na weithredir yn sgil ein camau gweithredu a argymhellwyd, byddem yn gwrthwynebu'r cynllun.</p>
<p>Mae hyn yn hysbysu'r ymgeisydd fod gan yr ymgynghorai arbenigol bryderon ac y byddai'n gwrthwynebu unrhyw gais am ganiatâd cynllunio a wnaed ar yr un telerau neu ar delerau sylweddol debyg ac yn nodi'r rheswm dros y gwrthwynebiadau hyn.</p>	<p>Byddem yn defnyddio'r categori ymateb hwn lle rydym yn ystyried:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Byddai'r cynnig yn cael effaith annerbyniol ar yr amgylchedd; • Ni ellid goresgyn yr effeithiau heb newidiadau sylweddol i'r cynllun. <p>Byddem yn esbonio'r rhesymau dros ein pryderon ac yn amlinellu pam rydym yn ystyried bod y cynllun yn annerbyniol ar ei ffurf bresennol.</p>

2.2.5 Mae Adran 20 Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn galluogi defnyddio cydsyniadau penodol fel rhan o gais DAC. Gelwir y rhain yn gydsyniadau eilaidd i'w penderfynu gan Weinidogion Cymru. Ceir gwybodaeth bellach ynglŷn â chydsyniadau eilaidd [yma](#).

2.2.6 Byddwn yn cyfeirio ymatebion o sylwedd i gydsyniadau eilaidd yr ydym yn gwneud sylwadau arnynt yn ystod y cam cyn ymgeisio, gyda'n hymateb o sylwedd cyn ymgeisio i gais DAC.

2.3 Cyn ymgeisio – Cyngor yn ôl disgrisiwn

2.3.1 Rydym yn cydnabod manteision ymgynghoriad cyn ymgeisio effeithiol rhyngom ni a'r ymgeisydd. Yn ogystal â'n cyngor statudol, gallwn gynnig barn gychwynnol i ymgeiswyr a mynediad at ein gwasanaeth cyngor ar gynllunio yn ôl disgrisiwn y codir tâl amdano. Cynigir barn gychwynnol am ddim i bob cynnig sy'n bodloni o leiaf un o'r meini prawf ar ein rhestr wirio ar gyfer ymgysylltu. Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn sy'n gynwysedig yn y gwasanaeth hwn a sut i gael mynediad ato ar ein [gwefan](#).

2.3.2 Gallwch ddefnyddio'r gwasanaeth cyngor cynllunio yn ôl disgrisiwn os ydych am gael mynediad at gyngor ehangach na'r hyn y gallwn ei ddarparu naill ai fel rhan o'n cyngor statudol neu ein barn gychwynnol. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys:-

- cyngor y gofynnir amdano ar y cam cyn hysbysu o'r broses ymgeisio DAC;
- cyfarfodydd ag ymgeiswyr;
- ymweliadau â safleoedd;
- cyngor ar y materion y dylid eu cynnwys mewn datganiad amgylcheddol;
- cyngor ar ofynion arolwg cynefinoedd;
- gofynion lliniaru; a
- chynghor manwl ar gyfyngiadau.

2.3.3. Codir tâl am y gwasanaeth cyngor cynllunio yn ôl disgrisiwn, ond nid oes rheidrydd arnoch i'w ddefnyddio. Mae manylion llawn yr hyn sy'n gynwysedig yn y gwasanaeth hwn, sut i fynd ato, ac ar ba delerau ac amodau y caiff ei gynnig ar ein gwefan. Os oes gennych ddiddordeb mewn defnyddio'r gwasanaeth cyngor cynllunio yn ôl disgrisiwn, byddwn yn gofyn i chi neu eich ymgynghorwyr nodi pa gyngor sydd ei angen ac, os yw'r cais yn helaeth, i ddarparu rhaglen waith fanwl ar ein cyfer. Bydd y ddogfen hon yn ein helpu i asesu gofynion tymor byr a hirdymor y prosiect ac i asesu ein capasiti i ddarparu'r cyngor. Byddwn hefyd yn ei defnyddio i roi amcangyfrif i chi o'r gost ar gyfer y gwaith y gofynnwyd amdano.

2.3.4 Os byddwch yn penderfynu derbyn ein dyfynbris am y gwaith, byddwn yn penodi swyddog fel pwynt cyswllt. Os oes angen mewnbwn sylweddol gennym, byddwn yn cytuno ar brotocol gyda chi neu eich ymgynghorwyr, a fydd yn amlinellu sut y byddwn yn cydweithio. Byddwn yn gofyn i chi neu eich ymgynghorwyr sicrhau bod gwybodaeth ddigonol ac addas yn cael ei darparu i ni er mwyn ein galluogi i ddarparu'r cyngor y gofynnwyd amdano i chi.

2.3.5 Rydym yn argymhell bod trafodaethau ynglŷn â'r defnydd o'r gwasanaeth cyngor cynllunio yn ôl disgrisiwn yn dechrau mor gynnar â phosibl er mwyn osgoi oedi yn ystod camau diweddarach y broses ymgeisio DAC. Mae hyn yn arbennig o bwysig os ydych yn bwriadu gwneud cais am gryn dipyn o gyngor gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

2.4 Ymgynghoriad ar ôl Ymgeisio – Cyngor Statudol

2.4.1 Mae'n ofynnol yn statudol bod Gweinidogion Cymru'n ymgynghori â ni lle mae DAC arfaethedig yn bodloni un neu fwy o'r meini prawf a restrir yn Atodlen 5 o Orchymyn 2016 lle cawn ein rhestru fel ymgynghorai arbenigol oni bai ein bod wedi hysbysu Gweinidogion Cymru nad ydym am iddynt ymgynghori â ni. Mae'n ofynnol dan Erthygl 23 o Orchymyn 2016 ein bod yn darparu ymateb o sylwedd o fewn 21 diwrnod i ddyddiad derbyn yr ymgynghoriad ffurfiol. Yn unol ag Erthygl 23 (fel y'i diwygiwyd), os cyflwynir datganiad amgylcheddol gyda'r cais, byddwn yn rhoi ymateb o sylwedd o fewn 30 diwrnod o

ddyddiad derbyn yr ymgynghoriad ffurfiol. Os bydd angen ymestyn y terfyn amser, byddwn yn cysylltu â'r Arolygiaeth Gynllunio cyn gynted â phosibl i geisio cytuno ar derfyn amser diwygiedig ar gyfer yr ymgynghoriad.

2.4.2 Lle na chynhaliwyd ymgynghoriad cyn ymgeisio neu lle nad ydym wedi rhoi ymateb ar ôl ymgynghoriad ar y cam cyn ymgeisio, bydd ein hymateb o sylwedd i ymgynghoriad ar ôl ymgeisio yn cynnwys un o'r pedwar categori o ymatebion a amlinellir yn Nhabl 2.

Tabl 2: Categori Ymateb o Sylwedd ar y Cam Ymgynghori ar ôl Ymgeisio (lle nad ydym wedi gwneud sylwadau'n flaenorol ar y cam cyn ymgeisio)

Categori ymateb o sylwedd	Pryd i'w ddefnyddio
Mae hyn yn nodi nad oes gan yr ymgynghorai arbenigol unrhyw sylw i'w wneud.	Byddem yn defnyddio'r categori ymateb hwn lle nad yw DAC yn bodloni unrhyw un o'r meini prawf yn ein rhestr wirio ar gyfer ymgysylltu.
Mae hyn yn nodi nad oes gan yr ymgynghorai arbenigol unrhyw wrthwynebiad i'r datblygiad arfaethedig, ac yn cyfeirio Gweinidogion Cymru at y cyngor cyfredol gan yr ymgynghorai arbenigol ynglŷn â'r ymgynghoriad.	Byddai'r categori ymateb hwn yn cael ei ddefnyddio lle rydym yn ystyried bod effeithiau materol ar fudd amgylcheddol sydd ar ein rhestr wirio ar gyfer ymgysylltu yn cael eu hosgoi neu eu lliniaru mewn ffordd briodol heb i ni wneud cais am unrhyw amodau cynllunio. Byddwn yn cyfeirio at gyngor sefydlog cyfredol Cyfoeth Naturiol Cymru ynglŷn â'r ymgynghoriad.
Mae hyn yn hysbysu Gweinidogion Cymru am unrhyw bryderon a nodwyd ynglŷn â'r datblygiad arfaethedig, a sut y gall yr ymgeisydd roi sylw i'r pryderon hynny.	Byddem yn defnyddio'r categori hwn o ymateb lle rydym yn ystyried bod y cynllun yn dderbyniol mewn egwyddor yn amodol ar y canlynol:- <ul style="list-style-type: none"> • Lle mae'r wybodaeth yn ddiffygiol ac ni allwn ddiystyried effeithiau amgylcheddol arwyddocaol posibl, mae gwybodaeth ddigonol yn cael ei darparu sy'n dangos y bydd effeithiau amgylcheddol arwyddocaol posibl yn cael eu lliniaru neu eu hosgoi mewn ffordd briodol; a/neu • Lle y gellid goresgyn ein pryderon trwy orfodi amodau i unrhyw ganiatâd cynllunio a roddir gan Weinidogion Cymru.
Mae hyn yn hysbysu bod yr ymgynghorai arbenigol yn gwrthwynebu'r datblygiad arfaethedig, ac yn amlinellu'r rhesymau dros y gwrthwynebiad.	Byddem yn defnyddio'r categori ymateb hwn lle rydym yn ystyried: <ul style="list-style-type: none"> • Y byddai'r cais yn cael effaith annerbyniol ar fudd amgylcheddol a restrir ar ein rhestr wirio ar gyfer ymgysylltu; ac • Ni ellid goresgyn yr effeithiau heb lai na newidiadau sylweddol i'r datblygiad arfaethedig; ac

	<ul style="list-style-type: none"> Ni ellid goresgyn yr effeithiau trwy orfodi amodau cynlluniau i unrhyw ganiatâd cynllunio a/neu gyda darpariaeth gwybodaeth newydd.
--	---

2.4.3 Lle y gwneir cais am gydsyniadau eilaidd ac nad ydym wedi gwneud sylwadau blaenorol arnynt, byddwn yn defnyddio categori o ymateb o sylwedd a amlinellir yn Nhabl 2 ar gyfer ein hymatebion i bob cydsyniad eilaidd y byddwn yn ymateb iddo. Byddwn yn cyfeirio ymatebion o sylwedd i gydsyniadau eilaidd yr ydym yn gwneud sylwadau arnynt, gyda'n hymateb o sylwedd ar ôl ymgeisio i gais DAC.

2.4.4 **Lle rydym eisoes wedi gwneud sylwadau** ar y cam cyn ymgeisio, bydd ein hymateb o sylwedd i'r Arolygiaeth Gynllunio yn defnyddio un o'r tri chategori ymateb a amlinellir yn Nhabl 3.

Tabl 3: Categoriâu o Ymateb o Sylwedd ar y Cam Ymgynghori ar ôl Ymgeisio (lle rydym wedi gwneud sylwadau'n flaenorol ar y cam cyn ymgeisio)	
Categori ymateb o sylwedd	Pryd i'w ddefnyddio
Mae'n nodi nad oes gan yr ymgynghorai arbenigol unrhyw sylw pellach i'w wneud ynglŷn â'r datblygiad arfaethedig ac yn cadarnhau bod unrhyw sylwadau a wnaed dan Erthygl 10 yn dal yn berthnasol.	Byddem yn defnyddio'r categori ymateb hwn lle rydym yn fodlon bod ein sylwadau blaenorol yn parhau i fod yn ddilys.
Mae'n hysbysu Gweinidogion Cymru am unrhyw bryderon newydd a ganfuwyd mewn perthynas â'r datblygiad arfaethedig, pam na chanfuwyd y pryderon yn yr ymateb a roddwyd yn unol ag Erthygl 10 , a sut gall yr ymgeisydd roi sylw i bryderon.	Dylem ddefnyddio'r categori ymateb hwn yn yr achosion canlynol:- <ul style="list-style-type: none"> Rydym wedi dod yn ymwybodol o wybodaeth newydd (er enghraifft, lle cyflwynwyd gwybodaeth bellach i ni gan yr ymgeisydd) ers i ni wneud ein hymateb o sylwedd cyn ymgeisio, ac mae ein cyngor wedi newid; ac Rydym yn ystyried mewn egwyddor y gallai'r cynnig fynd yn ei flaen o hyd ar ffurf sylweddol debyg: <ul style="list-style-type: none"> Lle mae'r cais yn ddiffygiol, yn ein rhwystro rhag asesu effeithiau amgylcheddol arwyddocaol posibl, bod gwybodaeth ddigonol yn cael ei darparu sy'n dangos y bydd effeithiau amgylcheddol arwyddocaol posibl yn cael

	<p>eu hosgoi neu eu lliniaru mewn ffordd briodol; a/neu</p> <ul style="list-style-type: none"> - Lle y gellid goresgyn ein pryderon ymhellach trwy atodi amodau i unrhyw ganiatâd cynllunio a roddir gan Weinidogion Cymru.
<p>Mae'n hysbysu Gweinidogion Cymru am unrhyw bryderon newydd a ganfuwyd mewn perthynas â'r datblygiad arfaethedig, pam na chanfuwyd y pryderon yn yr ymateb a roddwyd yn unol ag Erthygl 10, a bod yr ymgynghorai arbenigol yn gwrthwynebu'r datblygiad arfaethedig ac yn amlinellu'r rhesymau dros y gwrthwynebiad.</p>	<p>Byddem yn defnyddio'r categori ymateb hwn lle mae'r cyngor wedi newid oherwydd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rydym wedi dod yn ymwybodol o wybodaeth newydd (er enghraifft, lle cyflwynwyd gwybodaeth bellach i ni gan yr ymgeisydd ers i ni wneud ein hymateb o sylwedd cyn ymgeisio) a fyddai'n golygu y bydd y cynllun yn cael effaith annerbyniol ar fudd amgylcheddol a restrir ar ein rhestr wirio ar gyfer ymgysylltu; ac • Rydym yn ystyried na ellir goresgyn ein pryderon heb newidiadau sylweddol i'r cais; ac • Nid ydym yn ystyried y gellid goresgyn ein pryderon trwy orfodi amodau cynlluniau i unrhyw ganiatâd cynllunio a/neu gyda darpariaeth gwybodaeth newydd.

2.4.5 Lle y gwneir cais am gydsyniadau eilaidd ac rydym wedi gwneud sylwadau blaenorol arnynt yn ystod y cam cyn ymgeisio, byddwn hefyd yn defnyddio un o'r categorïau o ymateb o sylwedd a amlinellir yn Nhabl 3 ar gyfer ein hymatebion i bob cydsyniad eilaidd. Byddwn yn cyfeirio ymatebion o sylwedd i gydsyniadau eilaidd yr ydym yn gwneud sylwadau arnynt, gyda'n hymateb o sylwedd ar ôl ymgeisio i gais DAC.

2.5 Datganiadau Tir Cyffredin

2.5.1 Lle yr ymgynghorir â ni ar Ddatganiad Tir Cyffredin, byddwn yn eu hystyried ar sail achos unigol. Mae canllawiau gweithdrefnol yr Arolygiaeth Gynllunio ar Ddatganiadau Tir Cyffredin i'w gweld [yma](#).

2.6 Cytundebau Adran 106

2.6.1 Lle ceir rhwymedigaethau Adran 106 ac nid oes gennym ddiddordeb cyfreithiol yn y tir, dylid ymgynghori â ni. Dylai cynnwys y cytundeb gael ei gymeradwyo gennym ni cyn arwyddo'r cytundeb Adran 106. Dylai'r rhwymedigaethau hefyd fodloni'r cyngor a roddir yng Nghylchlythyr 13/97 'Rhwymedigaethau Cynllunio' a Rheoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol 2010.

2.7 Archwilio

2.7.1 Byddwn yn cymryd rhan yn y broses archwilio pryd bynnag y byddwn yn ystyried ei bod yn briodol a/neu'n angenrheidiol gwneud hynny.

2.8 Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesiad o Effaith Amgylcheddol) (Cymru) 2016: Cyfoeth Naturiol Cymru fel ymgynghorai

2.8.1 Rydym yn ymgynghorai dan [Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref \(Asesiad o Effaith Amgylcheddol\) \(Cymru\) 2016¹](#) (Rheoliadau Asesiad o Effaith Amgylcheddol). Cyfeirier at ganllawiau'r Arolygiaeth Gynllunio ar [Asesiad o Effaith Amgylcheddol](#).

2.9 Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'u diwygiwyd): Cyfoeth Naturiol Cymru fel Corff Ymgynghori

2.9.1 O ran ceisiadau DAC, ni yw'r 'corff cadwraeth natur priodol' dan [Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010²](#) (fel y'u diwygiwyd) (Rheoliadau Cynefinoedd) mewn perthynas â Chymru. Mae canllawiau gweithdrefnol yr Arolygiaeth Gynllunio ar Ddatganiadau Tir Cyffredin i'w gweld [yma](#).

2.9.2 Mae'n rhaid i Weinidogion Cymru fel yr 'awdurdod cymwys' ar gyfer DAC dan y Rheoliadau ymgynghori â ni fel y corff cadwraeth natur priodol at ddibenion yr asesiad a rhaid iddynt ystyried unrhyw sylwadau a wneir gennym ni.

2.10 Asesiad Canlyniadau Llifogydd

2.10.1 Mae perygl o lifogydd, boed ar y tir neu o'r môr, yn ystyriaeth cynllunio faterol. Bydd angen i gynigion DAC mewn ardaloedd a ddiffinnir i fod mewn perygl o lifogydd fodloni gofynion Polisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol 15 (Datblygu a Pherygl o Lifogydd). Ar gyfer cynigion mewn ardaloedd o berygl uchel o lifogydd (Parth C), bydd y profion dilyniannol a amlinellir yn Adran 6 TAN15 yn berthnasol. Bydd gofyn i unrhyw gynnig lle y nodwyd bod perygl o lifogydd yn bryder gyflwyno Asesiad Canlyniadau Llifogydd i gefnogi'r cais. Bydd angen i'r Asesiad Canlyniadau Llifogydd ddangos ei fod yn bodloni gofynion technegol TAN15, gan gynnwys rhoi ystyriaeth i newid hinsawdd.

2.11 Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr

2.11.1 Yng Nghymru, mae Rheoliadau'r Amgylchedd Dŵr (y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2003 (fel y'u diwygiwyd) (y Rheoliadau) yn rhoi'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (y Gyfarwyddeb) ar waith (yn rhannol). Mae'n rhaid i'r ymgeisydd asesu a yw amcanion y Gyfarwyddeb yn debygol o gael eu peryglu.

2.12 Pwyntiau Cyswllt

2.12.1 Mae ein pwyntiau cyswllt i'w gweld [yma](#).

2.12.2 Dylech gofio darparu manylion cyswllt er mwyn i ni allu ymateb yn brydlon.

¹ OS 2016 rhif 58 (W. 28)

² OS 2010/490

3 Cydsyniadau Cysylltiedig Cyfoeth Naturiol Cymru

3.1.1 Mae'r pwerau a'r dyletswyddau ehangach, a'r prif bwerau a dyletswyddau, mewn perthynas â pherchnogaeth tir, rheoleiddio, trwyddedu a chynghori sy'n berthnasol i Cyfoeth Naturiol Cymru yn deillio o wahanol Ddeddfau, Rheoliadau a deddfwriaeth Ewropeaidd a Chonfensiynau Rhyngwladol. Bydd angen ymgeisio am unrhyw ganiatadau angenrheidiol y byddwn yn eu pennu, ar wahân i'r cais DNS.

3.1.2 Rydym yn argymhell eich bod yn cydlynu'r gwaith o gyflwyno eich ceisiadau am ganiatadau Cyfoeth Naturiol Cymru â chyflwyno'r cais cynllunio ar gyfer DNS. Pwrpas hyn yw er mwyn ichi fod yn ymwybodol o ba ganiatadau eraill sydd eu hangen a'ch cyfrifoldeb chi yw anfon y ceisiadau yn brydlon, a dylech gyfeirio at [y tabl Caniatadau, Cofrestru, Trwyddedau ac Awdurdodiadau CNC](#) ar gyfer y diben hwn.